

# Llawenydd – gwaith go iawn

*“... byddi’n fy llenwi â llawenydd yn dy bresenoldeb.” (adn. 28)*

## Beth am ddarllen Actau 2:22–28 ac yna myfyrio

Ynghyd â bod yn lle i fawl a gwasanaeth, mae’r nefoedd hefyd yn le o lawenydd anghyffredin. Mae rhai awduron Cristnogol, ynghyd â rhai esbonwyr, yn mynnu mai dyma nodwedd bennaf y nefoedd. Ysgrifennodd C. S. Lewis yn un o’i lyfrau mai llawenydd yw gwir waith y nefoedd. Meddyliwch pa mor aml mae llawenydd a nefoedd yn cael eu cysylltu yn y Testament Newydd. Dywedodd Iesu ar un achlysur fod yna lawenydd gerbron angylion Duw dros un pechadur sydd yn edifarhau (Luc 15:10). Ac, wrth adrodd Dameg y Talentau, addawodd i’r rhai oedd yn defnyddio eu talentau ac yn eu lluosogi y byddent ryw ddydd yn clywed eu Meistr yn dweud: “Dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd.” (Mathew 25:21).

Ond a fydd yna fesur o dristwch yn y nefoedd i rai, wrth iddynt sylweddoli bod pobl yr oeddent yn arfer eu caru ar y ddaear yn uffern? Oni fydd i golledigaeth un enaid dawelu ychydig ar lawenydd y rhai a achubwyd? Fe fynegwyd hyn gan un yn y termau canlynol: “Ni allaf dderbyn iachawdwriaeth os oes un creadur yn cael ei adael allan yn y tywyllwch.” Nawr, mae hyn yn swnio yn dderbyniol iawn, ond nid yw yn cymryd i ystyriaeth holl agweddau’r sefyllfa. Meddyliwch beth fyddai’n rhaid i Dduw ei wneud er mwyn ymateb i hyn. Mae’n syml yn golygu mai’r gwrthynysig bellach fyddai yn rheoli y bydysawd. Uffern mewn awdurdod dros y nefoedd. Nid wyf yn gwybod a fydd yna tristwch yng nghalonau’r rhai hynny fydd yn darganfod fod pobl yr oeddent yn eu caru bellach yn uffern. Ond yr wyf yn gwybod y bydd pob un ohonon yn gweld pethau lawer yn gliriach nag yr ydym yn eu gweld yn awr, gan y byddwn yn meddiannu persbectif Duw. O weld yn glir, fe fyddwn yn teimlo’n iawn. Dyna lle mae’n rhaid i ni adael y mater.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Math. 25:14–30; Luc 15:7–10

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth ddywedodd Iesu wrth y gweision ffyddlon?
2. Beth â ddywedwyd wrth y gweision anffyddlon?

## Gweddi

O Dad, mae’n wir fod y cwestiwn yma yn aml yn fy mhoeni i. Ond rwyf yn gwybod fod yn rhaid i mi adael y cwestiwn hefo ti. Rwy’n gwybod mai “ond gweld o ran yr wyf” yn awr. Cynorthwya fi i ymddiried ynot ti nes daw’r dydd yna pryd y bydd pob cwestiwn yn cael ei ateb. Yn enw Iesu. Amen.